

Papur Pawb

Pris: 50c

Ebrill 2019

Rhif 448

tud 6

'Dad's Army'

tud 10

Gŵyl Ddrama

tud 11

Achub arwrol

tud 12

Chwaraeon



Hybu Ysgol Iach

Yn ystod pythefnos olaf mis Mawrth bu Ysgol Gynradd Tal-y-bont yn cymryd rhan yn Big Pedal 2019. Dyma'r her flynyddol i annog pawb i feicio, cerdded a sgwtera i'r ysgol. Ar bob diwrnod o'r her roedd ysgolion yn cystadlu i weld pwy allai gofnodi'r nifer fwyaf o ddisgyblion, staff a rhieni sy'n beicio, cerdded a sgwtera i'r ysgol. Mae hyn yn ffordd wych i gael mwy o'n disgyblion i deithio'n iach i'r ysgol ac mae'n ffordd syml o hybu eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl.

Yn ogystal ag annog y teuluoedd i ddod i'r ysgol mewn ffordd iach, bu pawb am dro fel ysgol gyfan o gwmpas y pentref a chafwyd ymdrech arwrol gan Mrs Leah Griffiths a Sioned Lewis, Swyddog Addysg Sustrans Gorllewin Cymru i seiclo o Dywyn i Dal-y-bont. Yr un mor arwrol oedd ymdrech Rosie o Flwyddyn 2 a'i thad Paul, a ymunodd â nhw ym Machynlleth ac ymdrech arbennig Maia a fu'n teithio o'i chartref yng Nglandyfi.

Mae'r ysgol yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld sut mae wedi cymharu gydag ysgolion eraill ar draws gwledydd Prydain yn ystod y dyddiau nesaf.

Mae'r arfer o roi defnydd o sgwter am waith da wedi parhau yn ystod y mis hefyd.



Sioned Lewis, Mrs Leah Griffiths, Rosie a Paul

Ymgyrch i gael ddiffibriliwr yng Nglandyfi

Pan fydd rhywun yn dioddef ataliad sydyn ar y galon, ymateb di-oed yw'r unig obaith. Mae ffonio 999 a chychwyn ar ddadebru cardio-anadlol (CPR) yn syth yn hanfodol. Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd wedi goroesi digwyddiad o'r fath wedi gorfod cael sioc gan ddiffibriliwr er mwyn cywiro rhythm afreolaidd eu calon.

Po gynharaf y rhoddir sioc o'r fath, po orau yw siawns y person hwnnw o oresi. Mae astudiaethau'n dangos mai cael sioc o fewn 3 munud i ataliad sydyn ar y galon yw cyfle gorau'r unigolyn o fyw, ac y gall cyn lleied â munud o oedi'n ychwanegol leihau ei siawns yn sylweddol.

Dyma sydd wedi ysgogi ymgyrch codi arian diweddar gan Dr Nicola Allen, sy'n gweithio yn Ysbyty Bronglais, er mwyn gosod diffibriliwr yng Nglandyfi. Fel doctor mae'n fwy ymwybodol na neb

o bwysigrwydd diffibriliwyr yng nghefn gwlad Cymru ac mae'n teimlo y byddai'n fanteisiol cael un wrth ymyl ffordd brysur yr A487 a nepell o orsaf drên Cyffordd Dyfi. Gyda swm o £1,500 byddai'r elusen Calonnau Cymru yn darparu diffibriliwr y gall y cyhoedd ei ddefnyddio mewn argyfwng, a hyfforddiant a fyddai'n gallu arbed bywydau. Ceir gwybodaeth bellach ar dudalen Just Giving yr ymgyrch.



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys:
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths (01654) 703635
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Is-gadeirydd: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAG

Cymdeithas Gwenynwyr Cymraeg Ceredigion

Ydych chiw eisiau dysgu sut i gadw Gwenyn?

Bwriedir cynnal gwers neu ddwy yn ardal Capel Seion ym mis Mai ar gyfer rhai sydd â diddordeb mewn dechrau gofalu am wenyn mêl. Bydd croeso cynnes i bawb o bob oed i ddod yn rhad ac am ddim!

Os oes gennych diddordeb, cysylltwch â Lewis Griffith (01970 624881) neu Wil Griffiths (01970 623334).

YN EISIAU:

Tir i'w brynu yn ardal
Machynlleth neu Aberystwyth.

1 i 5 erw (0.5 i 2 hectar)
tir pori nid coetir ar gyfer
prosiect garddwriaethol.

Cysylltwch â Clo Ward
07748 673829

CYMDEITHAS TREFTADAETH LLANGYNFELYN

Heddwen Cadwalader:
Llanerchaeron
Ddoe a Heddiw
(Sgwrs yn Saesneg)

7:30 Nos Fawrth
30 Ebrill 2019
Llanfach Taliesin

Sgwrs 'Gwastraff'

Calon y gymuned

Cletwr

Heart of the community

Tre'r Ddôl, Ceredigion, SY20 8PN

01970 832113

www.cletwr.com

Dewch i glywed mwy am y
newidiadau i gasgliadau
gwastraff yng Ngheredigion,
a dysgwch mwy am beth
sy'n digwydd i'ch gwastraff
ar ôl iddo gael ei gasglu
gan y Cyngor.

Nos Fercher 1 Mai 19.30 - 20.30

Dyddiadur

EBRILL

13 Taith Gerdded Hanesyddol
o amgylch Tre'r-ddôl a
Thaliesin 11-1

Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 10

Gwirfoddolwyr yn gweithio
yn y fynwent

14 Bethel 10 Uno yn Seion,
Stryd y Popty

Nasareth 5 Eifion Roberts

Rehoboth 2 Bugail

Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Gweddi

Hwyról

Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30

Gwasanaeth Boreol

Cletwr 8-10yb 'Adnabod

Adar: Ceredd yng Nghwm
Cletwr'

15 Merched y Wawr

Tal-y-bont a'r Cylch 'Taith
i gofio'r Dywysoges
Gwenllian'

17 Gwarchodfa Adar Ynyshir
2-3 'Dydd Mercher Gwyllt'
Dawnsio Albanaidd 7.30

Ystafell Haeam, Eglwysfach

18 Cletwr 3-5 Crefftau'r Pasg
gyda Jules

Swper y Pasg 7 Ystafell
Haeam, Eglwysfach

20 Cletwr 11-12 Dal Ati

21 Bethel 10 Oedfa'r Pasg,
Gwilym Tudur, Rhydychen
Nasareth 10 Oedfa'r

Ofalaeth yn y Garn

Rehoboth 10 Oedfa'r

Ofalaeth yn y Garn

Eglwys Llangynfelyn yn

Llanfach 2.15 Cymun y

Pasg

Eglwys Sant Mihangel,

Eglwysfach 9.30 Cymun

Bendigaid

Eglwys Sant Pedr, Elerch

2.30 Cymun y Pasg

21 a 22 Gwarchodfa Adar

Ynyshir 10-4 'Helfa Wyau
Pasg'

23 Tennis Bwrdd 7 Ystafell
Haeam, Eglwysfach

24 Gwarchodfa Adar Ynyshir
2-3 'Dydd Mercher Gwyllt'

25 Tai Chi 2 Ystafell Haeam,
Eglwysfach

26 Sesiwn Nos Wener Mei
Gwynedd 8 Y Llew Du

28 Bethel 10 Geraint Evans
Nasareth 10 Terry Edwards
Rehoboth 5 Roger Ellis
Humphreys

Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Gweddi

Hwyról

Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30

Gwasanaeth Boreol

30 Cymdeithas Treftadaeth
Llangynfelyn

'Llanerchaeron, y gorffennol
a'r presennol' (Heddwen
Cadwalader) 7.30 Llanfach

MAI

1 Gŵyl Ddrama Gogledd
Ceredigion Neuadd Goffa
Tal-y-bont 7.30

4 Gwarchodfa Adar Ynyshir
6yb-8yb 'Côr y Bore Bach a
Croissants'

5 Bethel 11.15 Uno yn
Nasareth

Nasareth 11.15 Bugail

Rehoboth 11.15 Uno yn
Nasareth

Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15

Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Cymun

Bendigaid

Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaid

7 Sefydliad y Merched
Taliesin 'Hosbis yn y
Cartref' (Dr Axford)

12 Bethel 10 a 5.30 Y

Gymanfa Ganu

Nasareth Y Gymanfa Ganu

Rehoboth Y Gymanfa Ganu

Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15

Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30

Gwasanaeth Boreol

Cletwr

Bob dydd Mawrth

'Clonc a Gweu' 3-5.

Bob dydd Sul

'Rhedeg Cymdeithasol'
9.30-10.30

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad
neu'ch sefydliad yn
nyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at
Carys Briddon,
carysbriddon@btinternet.com
01970 832478 o leiaf ddeng
niwrnod cyn y rhifyn nesaf o
Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Rhian a Catrin, gyda
Ceri yn dylunio. Diolch iddynt.
Y golygyddion ar gyfer y rhifyn
nesaf fydd Robat ac Enid
(enid@yloffa.com).
Y dyddiad cau yw 3 Mai
a bydd y papur ar werth
ar 10 Mai.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Ifor Jones, Llys Ynry, Tal-y-bont ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

Yn yr Ysbyty

Y mae Gwyndaf Evans, Maes-y-deri, Tal-y-bont, yn ôl yn Ysbyty Bronglais ond da deall ei fod ychydig yn well. Brysiwch adre at y teulu Gwyndaf.

Ym Mronglais hefyd mae Valma Jones, Wern, Tal-y-bont, yn dilyn ei chwymp yn y cartref nyrsio. Pob dymuniad da i chi Valma!

Galwad Cynnar

Gobeithio fod John Evans, Bryn Eleri, Tal-y-bont yn hapus gyda'r ateb i'w gwestiwn a anfonodd at y rhaglen radio Galwad Cynnar! Roedd John am wybod sut oedd dyddiad y Pasg yn cael ei benderfynu'n flynyddol.

Pawb a'i Farn

Oes, mae gan bob un ohonom farn a braf oedd gwrandio ar gyfraniad teg a chytbwys Rhian Jones, Eurfan gynt, wrth iddi hi fynegi ei barn ar raglen Dewi Llwyd, *Pawb a'i Farn*, ar y teledu yn ddiweddar.

Côr Cymru

Ymddangosodd dau gôr lleol yng nghystadleuaeth Côr Cymru a gymerodd le yng Nghanolfan y Celfyddydau gyda dau wyneb cyfarwydd o ardal Papur Pawb ynddynt. Roedd Huw Lewis, Tre'r ddôl yn canu gyda Chôr Meibion Machynlleth a Delyth Huws, Henllan, Tal-y-bont yn aelod o Gôr ABC. Cafwyd cyfle hefyd i fwynhau llais cyfoethog Delyth wrth iddi ganu unawd gyda'r côr.

Adre o'r Ysbyty

Croeso adre o ysbyty Treforys i Dafydd Jenkins, Penpompren Uchaf, Tal-y-bont. Braf clywed eich bod yn teimlo dipyn yn well erbyn hyn.

Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Dei Owen Evans, Maes-y-Deri, Tal-y-bont, yn dilyn cyfnod yng Nghartref Abermad. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu colled.

Cydymdeimlwn hefyd â Glenys Jenkins a'r teulu, Penpompren Uchaf, Tal-y-bont ar golli cefnder sef Gareth Jones, Cefnllwyd yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Cylch Meithrin Tal-y-bont

Mae'r plant wedi bod yn brysur dros y tymor diwethaf yn plannu a thyfu nifer o lysiau a blodau yn yr ardd. Rydym yn edrych ymlaen i flasur cynnyrch!

Hoffwn ddiolch yn fawr i Vicky Ellis sydd wedi gadael y Cylch yn ddiweddar am ei gwaith caled dros y blynyddoedd. Hoffwn hefyd groesawu Teri Jones fel Cynorthwy-ydd newydd y Cylch.

**Pen blwyddi Arbennig**

Dymuniadau gorau i Stephanie Morgan, Maesnewydd, Tal-y-bont, ac i Brian Jones, Pen Lon, Tal-y-bont sydd wedi dathlu pen blwyddi arbennig yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Carwyn Evans, Maes-y-deri, a dorrodd ei goes tra'n sgio yn Awstria ddiwedd Mawrth.

Glandyfi

Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus arbennig yn 90 oed i Joy Neil, Llwynceilyn, Glandyfi. Byddai yn anodd adnabod neb sydd wedi gweithio mor galed a diflino er lles ei hardal. Bu yn agor ei gardd odidog i'r cyhoedd am flynyddoedd, er mwyn codi arian at yr Eglwys, a gwahanol elusennau. Y mae yn Warden yn Eglwys Sant Mihangel, ac yn fedrus iawn yn cael grantiau, at gynnal a chadw, ac yn cadw llygad barcud ar gyflwr yr adeiladau.

Ar hyn o bryd mae yn brysur ynghyd ac aelodau yr Eglwys, yn paratoi ar gyfer rhedeg Gŵyl Lenyddol a Chystadleuaeth Barddoniaeth, R S Thomas ar 20fed i'r 22ain o Fedi. Mae'r taflenni dwyieithog allan yn barod, ac ar gael gan Alison, rhif ffôn: 01654 781 322

Dymuniadau gorau, mwynhewch y dathliad gyda'r teulu.

Ymddeoliad Hapus

Pob dymuniad da i Rowland Davies, Dolclettwr, sydd wedi ymddeol o'i swydd fel Uwch Swyddog Archwyllo yn yr adran Arolwg Busnes Fferm yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Yn ystod y 45 mlynedd, bu Rowland yn teithio hyd a lled Cymru yn ymweld â nifer o wahanol ffermydd ac yn cwrdd â ffermwyr diddorol iawn. Bydd defaid Dolclettwr yn cael eu pampio mwy nag arfer eleni!

LRJ

**Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth**

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk



Ysgol Tal-y-bont



Ysgol Iach



Ysgol Iach



Eisteddfodau'r Urdd



Eisteddfodau'r Urdd



Yr Ysgol yn y Gymuned

Ysgol Tal-y-bont

Diwrnod Trwynau Coch

I gyd-fynd gyda'r diwrnod hwn eleni, penderfynodd y Cyngor Ysgol gynnal sesiwn sgipio noddedig er mwyn codi arian tuag at yr elusen. Diolch yn fawr am bob ymdrech i gefnogi'r plant ac am gasglu cymaint o arian ar gyfer yr elusen bwysig yma.

Eisteddfodau'r Urdd

Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd eleni. Cafwyd perfformiadau arbennig gan y parti canu, criw yr ymgom a Caoimhe Melangell. Da iawn Caoimhe ar ei llwyddiant yn cystadlu gydag Adran Tref Aberystwyth yn yr Eisteddfod Rhanbarth ym Mhontrhydfendigaid yn ystod y mis. Edrychwn ymlaen i'w gweld ar lwyfan y Genedlaethol ym mis Mai.

Hoffwn ddiolch i rieni a ffrindiau'r ysgol am eu gwaith yn paratoi'r plant ac am gludo'r plant i'r gwahanol eisteddfodau. Hoffwn ddiolch yn arbennig am gymorth Catrin Saunders-Jones, Siwan Haf, a Siôn Pennant am roi o'u hamser i hyfforddi'r parti canu a'r ymgom. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r staff i gyd hefyd am bob cymorth ar yr adeg prysur yma.

Ffair Wyddoniaeth

Rydym yn hoffi ymweld â'r Ffair Wyddoniaeth yn y Brifysgol bob blwyddyn. Mae'n ffordd ymarferol a hwyliog o ddysgu am wahanol agweddau o wyddoniaeth. Diolch yn fawr i staff y Brifysgol am drefnu'r digwyddiad.

Myrddin ap Dafydd

Roedd dydd Gwener y 5ed o Ebrill yn ddiwrnod arbennig iawn yn hanes Ysgol Tal-y-bont, oherwydd ar y diwrnod yma cafwyd ymweliad gan Brifardd a darpar Archdderwydd! Oherwydd bod Caoimhe Melangell yn ffan enfawr o waith Myrddin ap Dafydd, cafodd y syniad o'i wahodd i'r ysgol. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn am farddoniaeth a'r grefft o ysgrifennu nofelau i blant a chyn iddo ein gadael, roedd cyfle am sesiwn lofnodi a chyfle hefyd i Myrddin ein hatgoffa am Eisteddfod Ceredigion 2020 yn Nhregaron. Diolch yn fawr i Caoimhe am ei wahodd yma ac i Myrddin am dderbyn y gwahoddiad.



Yr Ysgol yn y Gymuned

Gŵyl Agor Drysau yn y Neuadd Goffa Tal-y-bont! Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni Delyth ac Angharad Jenkins sy'n perfformio dan yr enw DnA. Roedd eu sioe newydd, Yn Agos ac yn Bell, yn pwysleisio pwysigrwydd pethau arbennig a hiraeth wrth deithio o adref. Roedd y perfformiad yn gyfuniad o'r ffidil a'r delyn gyda cherddoriaeth draddodiadol a newydd. Diolch i bawb am gefnogi.

Fel rhan o'r ŵyl, aeth Blwyddyn 3-6 i Theatr y Werin i weld sioe

'Refugi'. Sioe clown ffantastig, heb eiriau lle bod un cymeriad yn creu ei loches bach ei hun, lle roedd yn teimlo'n ddiogel. Roedd y llall wedyn wedi colli popeth a ffoi fel ffoadur i chwilio am gartref newydd. Roedd y ddau o wahanol gefndiroedd yn dod yn ffrindiau hapus a'r cyfan wedi ei hadrodd trwy hiwmor unigryw y clown.

Aeth plant y Cyfnod Sylfaen i weld perfformiad o 'Un Tout Petit Peu Plus Loin' gan gwmni o Wlad Belg. Cynhyrchiad am giwb rhyfedd oedd hwn, rhywbeth fel wy mawr sgwâr. O'r ciwb daeth dwy, pedair, chwe throed a chymryd eu camau cyffrous cyntaf yn y byd mawr rhyfedd 'ma gan ofalu am ei gilydd wrth chwarae a darganfod eu byd newydd. Roedd hi'n brofiad hyfryd i weld y perfformiad y cwmni adnabyddus yma ar eu hymweliad cyntaf â Chymru.

Staffio

Llongyfarchiadau mawr i Rhiannon Harrison a'r teulu ar enedigaeth mab bach yn ystod y mis. Bu Miss Harrison yn dysgu'r plant lleiaf yn ystod y misoedd diwethaf.



Clwb Ieuenctid Tal-y-bont

Mae Clwb Ieuenctid Tal-y-bont wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus ers dros i flwyddyn bellach yn dilyn ailgychwyn ym mis Ionawr 2018. Pencadlys y Clwb yw Neuadd Goffa Tal-y-bont ac mae'r drysau ar agor o 18:30 i 20:30 bob nos Wener yn ystod tymhorau Ysgol.

Mae'r clwb yn agored i bobl ifanc rhwng 10-16 mlwydd oed, ac yn rhad ac am ddim i fynychu. Ers i'r clwb gychwyn, mae wedi croesawu dros 60 o bobl ifanc lleol drwy'r drysau, gyda tua 25 yn mynychu'n wythnosol. Mae'n braf hefyd nodi bod 8 gwirfoddolwr rheolaidd yn rhedeg a chefnogi'r clwb.

Mae'r Clwb yn gweithredu ar sail cynhwysiedig ac mae croeso i unrhyw un i ymuno, boed hynny fel aelod neu fel rhywun sydd am gefnogi gyda goruchwilio'r gweithgareddau wythnosol neu i gefnogi'r ochr weinyddol a rheoli.

Mae'r clwb yn gwneud y mwyaf o'r adnoddau da sydd ar gael yn y Neuadd Goffa, hynny yw drwy chwarae pêl-droed neu pŵl, ac mae'r clwb yn ddibynol ar grantiau a rhoddion i fedru changu'r gweithgareddau a'r cyfleoedd i'r ieuenctid. Yn aml, mae'r clwb yn cynnig gweithgareddau megis coginio a chelf a chrefft.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, cafodd yr aelodau hefyd gyfle i fynd ar deithiau; i'r sinema yn Borth, i sglefrio ia yn Aberystwyth adeg y Nadolig ac i ymweld â'r Orsaf Dân yn Aberystwyth rhai misoedd yn ôl.

Os eich bod yn dymuno derbyn unrhyw wybodaeth bellach am y clwb, mae croeso i chi gysylltu â Lowri ar lowri_masonevans@hotmail.com neu cysylltwch dros facebook ar @CITalybontYC.





'Dad's Army' Tal-y-Bont

Mae'r gyfres deledu boblogaidd a hynod ddoniol, 'Dad's Army', a ddarllwyd yn wreiddiol rhwng 1968 ac 1977, yn parhau i'w weld ar BBC2 hyd heddiw. Roedd gan Dal-y-bont 'Dad's Army' ei hun yn ystod yr Ail Ryfel Byd, sef uned leol o'r Gwarchodlu Cartref a ffurfiwyd yn gynnar yn y rhyfel. Rhaid bod y llun hwn o'r uned wedi'i dynnu tua 1943 gan fod tri ohonynt Tegwyn Owens, John Jenkins a Jack Rodd Williams wedi'u galw i'r lluoedd arfog wedi i'r llun gael ei dynnu. Bu Tegwyn a John ym merw'r brwydro yn Ffrainc a'r Iseldiroedd wedi D-day ym Mehefin 1944 tra lladdwyd Jack pan blymiodd ei awyren i'r ddaear pan oedd ar gyrch yn yr Almaen yn Awst 1944. Diolch i Mrs Kathleen Richards am anfon y llun hwn i'r papur.

Rhes ôl: Jim Morgan (Maesnewydd), Haydn Ebenezer, Mr Thomas (Glandwr), Tegwyn Owens, Trefor Williams (Cwmslaid), William Davies (Penrhiw), D J Thomas ("Thomas y Troi"), John Jenkins.

Rhes Ganol: Clifford Williams (Eddington House), Gwyn Faulkener (Llew Gwyn), William Jones (Cwm Afon), David Evans (Fronallt), Eric Childs, Eddie Cadman.

Rhes flaen: Wil Richards, Johnie Morgan, Jack Rodd Williams, David Morris Davies (Central Stores), Dafydd Williams (postman), Chris Jenkins, Arthur (Roy) Faulkener (Llew Gwyn)

Telyneg

Llongyfarchiadau i Phil Davies. Gwynionydd, Tal-y-bont ar ennill y gystadleuaeth ar gyfer cyfansoddi telyneg yn Eisteddfod Penrhyn-coch. A diolch iddo am ganiatau i ni gyhoeddi'r gerdd fuddugol.

Gardd

Ugain wrth ugain yw ei led a'i hyd,
A chlawdd yn ei warchod rhag llygaid byd.
O'r sied yn y cefn rhed llwybr troed
I'r tŷ haul pen draw, yr hardda erioed.
Rhyw esgus o lawnt sydd ar y dde
Lle chwarae pêl, nid yw'n fawr o le.
Gosodwyd y gweddill mewn gwelyau sgwâr
Ar gyfer hadau a thoriadau sbâr.
Mae'r rhychau tato yn syth fel saeth
A'r riwbob yn pipo trwy'r ddaear llaith.

Y setiau winwns, a'r hadau ffa,
Sy'n barod i'w gosod, mewn pryd i'r ha'.
Yn dal eu tir yn erbyn y gwynt,
Mae cennin olaf y tymor cynt.
Mewn whilber rydlyd mae'r mint yn dod
Eleni eto, fel troad y rhod.
Yr egin cyntaf sy'n gwrthio'i ben
Trwy ystlys bigog y gwsberen wen,
Ac yn codi llaw o'r border bach
Mae blodau mis Mawrth yn canu'n iach.

Yn gwmni selog daw'r deryn du
Yn dynn wrth fy nghwt wrth adael y tŷ.
Ei fryd sydd ar fwydyn ond tybed a wŷr
Y cysur a deimlaf bob bore a hwyr
Wrth glywed ei gân yn atsain trwy'r fro
Neu ei weld yn fy ngwyllo â'i ben ar dro.

Eisteddaf nôl ar y dec newydd sbon
A thon o ddedwyddwch yn llenwi'm bron.
O na bai'r byd yn debycach i'm gardd,
Yn fôr o ddedwyddwch mewn oes di-wardd.
O na fyddai cân y fwyalchen hud
Yn llonni calonnau arweinwyr byd.

D Philip Davies

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batri
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Mawrth

Cynhaliwyd cyfarfod misol olaf y flwyddyn ariannol yn y Neuadd Goffa ar Nos Lun, 25 Mawrth 2019. Estynodd y Cadeirydd, Cyng. Enoc Jenkins groeso cynnes i bawb, yn enwedig Mr Eifion Jones.

Prosiect Llwybr Tal-y-bont i Taliesin

Cafwyd diweddariad oddi wrth Mr Eifion Jones ar y cynllun i greu llwybr diogel yn cysylltu pentrefi Tal-y-bont a Thaliesin gan gydweithio gyda Chyngor Cymuned Llangynfelyn. Rhoddodd Eifion grynodeb o hanes y prosiect ac eglurodd y manteision a'r anafteision o'r gwahanol opsiynau yr oedd y pwyllgor wedi ystyried.

Materion y Fynwent

Cadarnhaodd y Cadeirydd, Cyng. Enoc Jenkins, fod y tap dŵr yn y fynwent wedi cael ei drwsio. Trafodwyd problemau gyda sbwriel yn y fynwent, yn enwedig problemau sydd yn cynyddu gyda hen flodau yn cael eu gadael ger y tap dŵr neu'r mynediad i'r fynwent. Cytunwyd bod angen arwydd addas yn gofyn i'r cyhoedd ddefnyddio'r bin sydd yno neu fynd a sbwriel a hen flodau adref.

Gohebiaeth

O dan gohebiaeth darllenodd y Clerc lythyr oddi wrth Jill Evans, Cadeirydd CND Cymru, ynglŷn â phryderon am gladdu gwastraff niwclear. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd y Cyngor yn fodlon ystyried unrhyw syniad o gladdu gwastraff niwclear yn ardal Cymuned Ceulanamaesmawr.

Materion Ariannol

Cyflwynodd y Clerc fantolen ddrafft am y flwyddyn ariannol a chadarnhaodd y bydd fersiwn gorffenedig ar gael unwaith mae wedi derbyn y cyfrifon banc ym Mis Ebrill. Eglurodd y trefniadau newydd ar gyfer archwiliad ariannol y Cyngor eleni.

Materion Ffyrdd a Materion Eraill

Nid oedd unrhyw faterion cynllunio i'w trafod ond cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o faterion eraill, ac yn enwedig gyda materion ffyrdd yn yr ardal. Cynhelir y cyfarfod misol nesaf ar Nos Lun, 29 Ebrill 2019.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

rab.jones@btinternet.com

07831 402 002



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Mawrth 2019

Golau ar y A487 yn Nhref Ddôl

Erbyn hyn mae aelodau o'r Cyngor Cymuned wedi cael cyfle i gwrdd ag un o weithwyr adran ffyrdd y Cyngor Sir. Wedi trafodaeth cytunwyd i gael gwybodaeth bellach ynglŷn â'r golau sydd ar gael ac yn addas i'r lleoliad arbennig.

Diogelwch y ffordd yn Nhaliesin

Cafwyd ateb gan y Cyngor Sir yn nodi nad oeddynt yn darparu "scalpings" bellach. Penderfynwyd gofyn i gwmnïau tarmac preifat os oedd ganddynt "scalpings" i sbario er mwyn eu rhoi i lawr ar ochr y ffordd heibio Temprance tuag at Neuadd yr Ynys i hwyluso'r parcio yn Nhaliesin.

Cymorthdaliadau 2019

Unwaith eto eleni bu'r Cyngor Cymuned yn ffodus iawn i allu cefnogi nifer o fudiadau lleol gyda rhoddion ariannol.

Trafodwyd a chafwyd diweddariad ar nifer o faterion eraill.

Cynhelir Cyfarfod Blyneddol y Cyngor cymuned ar nos Lun Mai 13eg, 2019 am 7yr hwyr yn Llanfach.

Cymdeithas Y Chwiorydd, Rehoboth

Jez Danks oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod ar brynawn Mawrth, 12 Mawrth, ac yn ystod y prynawn adroddodd ychydig o'i hanes yn fachgen ifanc yn Lloegr, sut y daeth i Gymru yn 1971, a phenderfynu aros yma. Cafodd yrfa wahanol a diddorol yng Ngheredigion dros y blyneddau, a dysgodd siarad Cymraeg yn rhugl. Cawsom glywed ei ddawn gerddorol hefyd wrth iddo chwarae nifer o ddarnau ar y ffidil. Ar ôl talu'r diolchiadau, mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Ann Jones a Non Griffiths.

Y LLEW GWYN

Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)
Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Buyd da... Cwmni da!



BLACK LION HOTEL

01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

Mrs Jane Morgan, Llwyn Adda ac hanes yr edau wlan

(parhad o'r erthygl a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf)

Beth oedd y ddefod o fesur y corff gyda'r edau wlan?

Yr edau gorau oedd gwlan dafad cartref, mewn ffurf edau ddwbl. Mesur hyd y braich, neu rhan o'r braich, oedd y ddefod.

Ond mesur braich pwy?

Byddai rhywun yn meddwl, fel bod claf yn mynd at feddyg, mai mesur y claf oedd y drefn.

Ond dyma ddirgelwch arall.

Yn ôl Anne Williams a thystiolaethau eraill, y drefn arferol oedd i'r iachâwr fesur braich ei hun.

Gallai'r claf bod yn bresennol gyda'r mesurwr ond yn aml nid oedd y mesurwr am i'r claf i fod yn bresennol, neu hyd yn oed yn ymwybodol bod y mesur yn cael ei wneud ar ei ran.

Yn ôl y tystiolaeth, yn aml iawn rhywun arall gwnaiff eiriol dros y sawl a dioddefai a threfnu'r defod gyda'r iachâwr ar ei ran.

Hanfod y mesuro oedd i'r iachâwr fesur yr edau o'r benelin hyd at flaen y bys canol ar y llaw, a gwneud hynny deirgwaith, sef gorffen gyda thri darn o edau.

Yn ôl Evan Isaac, a oedd wedi casglu llawer o wybodaeth oddi wrth mesurwyr lleol, y ddefod oedd mesur yr edau deirgwith o'r penelin i flaen bys canol y llaw.

Wrth fesur, sibrydai'r iachâwr eiriau yn debyg i

"Yn enw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glan, yr wyf yn gofyn beth sydd arnaf i (enw'r claf), yr hwn wyf hyn a hyn o oedran."

Yr oedd y geiriau hyn y awgrymu bod y mesurwr yn cymeryd personoliaeth y claf arno neu arni ei hun er mwyn darganfod beth oedd y salwch.

Wedi gwneud y mesuriadau, aed ati i gymharu'r tair edau.

Os oedd yr edau yn hrrach y trydydd tro, byddai hynny yn brawf sicr fod y 'clefyd', sef clefyd y galon, yn ddrwg ar y claf.

Fel arall, os oedd yr edau yn byrhau ar y trydydd tro, cesglir mai anhwylder arall oedd ar y claf.

Gellid casglu, os oedd yr edau pob tro yr un hyd, bod testun y mesur yn holliach.

Gwella

Wedi darganfod bod rhywbeth o'i le, yr oedd rhaid cynnig modd i wella'r claf o'i anhwylder.

Mae'n debyg bod ffyrdd gwahanol o geisio gwella'r claf, yn dibynnu ar beth ym marn y mesurwr oedd y salwch.

Yn gyntaf: **swyn.**

Wrth wneud y trydydd mesur, sibrydai'r mesurwr swyn er mwyn gwella'r claf. Efallai defnyddid y swyn ym mhob achos

Yn ail: **clymu wedi torri'r edau.**

Os oedd y mesur yn dangos prawf o glefyd y galon neu iselder, yna rhwymir yr edau am fraich y claf, a'i gadw yno tan iddo wella. Yn ôl Evan Isaac, trwy fesur yr edau a wedyn torri'r edafedd oedd y ffordd o 'dorri'r' clefyd.

Yn drydydd oedd: **y Trwyth** (sef ffigisig)

Rhoddwyd i'r claf y trwyth i'w yfed, sef cwrw a saffrwn, neu jin a saffrwn, a hynny wedi'i boethi gan haearn iasboeth.

A disgwylir tâl am y gwasanaeth?

Yr oedd rhai yn gwneud y gwaith am ddim, eraill yn disgwyl pres am y sylw.



Brynadda

Beth oedd yr edau wlan mewn gwirionedd yn gynrychioli?

Mae'n amlwg mai cyfrwng oedd yr edau i ddarganfod presenoldeb afiechyd.

Yr ydym wedi arfer mynd at feddyg gan ddisgwyl rhyw ffigisig i wella anhwylder, ond tybed a oedd rhywbeth amgenach ar waith yma?

Oes wahanol iawn oedd oes y triniaethau gwerinol, ac yr oedd agwedd pobl at anhwylderau yn wahanol i'n deallwriath ni o drin anhwylderau. Dyna, efallai, pam rhoddodd Evan Isaac yr enw 'Coelion Cymru' ar ei lyfr.

Efallai roedd mwy o barodrwydd i dderbyn swynau fel modd seicolegol i wella anhwylder. Wrth ddarbwylllo'r meddwl fod gwellhad yn bosib, dyna ffordd o orchfygu meddyliau oedd yn peri iselder neu 'clefyd y galon'.

Owen Watkin

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Meilyr Jones

BITW DJ SGILTI

7yh
20.04.19
£10

NEUADD GOFFA TALYBONT
Dewch â chwrrw eich hun!

Tocynnau ar werth yn Siop y Pethe, Aberystwyth.

UNIGRYW

Cymdeithas Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Thoson Ffilan
Night Out

Pantri Pawb

Ar ôl gadael ysgol Ardwyn mi es i Goleg yn Lerpwl ac wedyn i ddysgu Gwyddor Tŷ mewn sawl ysgol ar Lannau Mersey am dros ddeg mlynedd ar hugain. Mi orffennais fy ngyrfa yn ysgol gyfun Halewood wedi bod yno am yn agos i ugain mlynedd. Mae Halewood yn ardal go dlawd a llawer o ddiweithdra yno er ei bod yng nghysgod ffatri fawr Ford.

Roedd hynny'n meddwl bod llawer o'r plant o'n i'n eu dysgu yn methu fforddio prynu nwyddau i ddod mewn i gwcio. Fe sylweddolais yn go fuan fod rhaid codi arian i allu prynu pethe iddyn nhw, ac felly fe ddechreuais glwb cinio i'r henoed bob mis ac un arall i'r staff.

Hefyd fe fyddde'r prifathro yn aml yn gofyn i fi a'r plant i gwcio os oedd rhywun pwysig yn dod i'r ysgol. Oedd hyn i gyd yn rhoi profiad da i'r plant, yn enwedig y rhai oedd yn byw ar fwyd o'r 'chippy' gartref. Roedd Nadolig bob amser yn dra phrysus – roedd hi'n dipyn o her i wneud cinio Nadolig i gant a dim ond chwech ffwrn gyffredin, dim ond plant i helpu, gorffen popeth mewn awr yn ogystal â golchi lan a bod yn barod i ddysgu gwersi eraill yn y prynhawn!

Pan o'n i'n paratoi'r fwydlen i unrhyw ginio roedd rhaid dewis ryseitiau go rhwydd, rhai go rhad a ddim llawer o gynhwysion, a rhai na fyddent yn cael eu difetha os o'n nhw yn y ffwrn yn rhy hir. A dyna beth sydd isod - engraffit o un allen ni baratoï yn gynnar yn y bore a'i roi wrth ei gilydd ar y funud ola, ac oedd yn edrych yn lliwgar a blasu yn dda ar y diwedd. Gan fod pupur gwyrdd a phapur melyn ynddo fe does dim rhaid rhoi rhagor o lysiau gyda fe, ond mi allech roi ychydig o broccoli i mewn hefyd os ydych chi ise. Fe fydden i'n rhoi tatws wedi pobi gyda fe er hwylystod, ond mae pasta yn mynd yn dda hefyd. Mwynhewch.

Gwen Billingham (Alltgoch gynt)

Caserol cyw iâr a passata

2-3 llond llwy fwrdd o olew olewydd
4 golwyth cyw iâr (heb esgryn)
200g o sibwn – wedi'u pilio a'u haneru
Halen a phapur
500g o passata
2-3 llond llwy fwrdd o bersli neu deim fres
1 pupur gwyrdd ac 1 pupur melyn - wedi'u torri
12 olif ddu heb gerrig



Cyfarwyddiadau

1. Cynheswch yr olew a ffrwch y cyw iâr a'r sibwn yn gyflym am rai munudau.
 2. Rhwch y cyw iâr mewn dysgl gyda'r sibwn ac ychwanegwch halen a phapur. Arllwyswch y passata dros y cyfan gan ychwanegu hanner yr herbiau.
 3. Coginiwch am 30 munud.
 4. Ychwanegwch y pupur a'r olifau a choginiwch am 30 munud arall.
 5. Taenwch y perllysiau dros y saig a'i gweini.
- Ffwrn - 180°C / Nwy rhif 4



Sêr Ffwrnais

Da iawn chi Rhys a Rhodri Richards, Clapycrïpiau, a Gareth Jenkins, Ynyseidiol ar eich llwyddiant ar raglen Y Siambr ar S4C, Nos Iau 4ydd o Ebrill. Roedd enw'r tîm Bois y Beudy yn addas, am fod rhaid cael cryfder, gallu, a dewder, i orchfygu'r tîm arall, Cyhyrau Cymru o Sir Fôn a oedd yn edrych yn fygythiol iawn, ond roedd bois Ysguborycoed yn rhy gyflym iddynt! Llongyfarchiadau mawr i'r ddau frawd a'u cefnder.

Merched Y Wawr Tal-y-Bont a'r Cylch



Lansiwyd Prosiect Ailgylchu 6000 Merched y Wawr yn y Ffair Aeaf y llynedd a'r sialens oedd casglu dros 6000 o fagiau o sbwriel. Dyma rai o aelodau'r gangen leol yn ymateb i'r her ar fore Mawrth, 2 Ebrill.

Ar nos Lun, 18 Mawrth, aethom i fwyty Libanus 1877 yn y Borth i fwynhau pryd o fwyd. Ar ôl y gwledda, croesawyd ein gwraig wadd am y noson, sef Dana Edwards, Aberystwyth. O ddydd i ddydd mae'n gweithio fel ymchwilydd ar raglenni dogfen, ond mae hefyd yn awdures sydd wedi cyhoeddi tair nofel, un yn Saesneg o'r enw *The Other Half*, a'r ddwy arall yn Gymraeg, sef *Pam?* ac *Am Newid*. Teitl ei sgwrs ar y noson oedd 'Darnau ohona i', a bu'n sôn am ei hardal enedigol ger Pencader, a sut mae'n mynd ati i wneud ei hymchwil ar gyfer ysgrifennu. Daeth â sawl eitem gyda hi gan egluro sut maent wedi effeithio ar y ffordd y mae'n ysgrifennu. Diolchwyd iddi am noson ddiddorol iawn gan Carys Briddon.

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH 24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703502
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE
www.midwalesstorage.co.uk

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Cronfa Apêl

EISTEDDFOD

Ceredigion

1-8 Awst 2020



Parhau mae'r gweithgarwch codi arian yn yr ardal tuag at Eisteddfod Ceredigion 2020 a chafwyd cwis dwyieithog hwyliog yn Cletwr ar nos Wener 5 Ebrill. Cafwyd cryn dipyn o chwerthin wrth i Phil Davies, Gwynionydd, Tal-y-bont ein harwain yn grefftus trwy 8 rownd amrywiol o gwestiynau. Gwelwyd disgleirdeb gwybodaeth ambell un a diffyg gwybodaeth ambell un arall! Heb os, dysgwyd nifer o ffeithiau newydd fydd yn help mawr i rai ohonom gobeithio wrth ateb cwestiynau mewn cwisau yn y dyfodol. Diolch o galon i Phil am y gwaith paratoi.

Gŵyl Ddrama

Gogledd Ceredigion

Yn dilyn llwyddiant yn 2018 cynhelir ail Wyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn ystod mis Mai eleni gyda'r bwriad unwaith eto o ddod â nosweithiau o ddrama yn ôl i'r ardal. Dathlu doniau lleol ydy calon yr ŵyl mewn gwirionedd gan fachu ar y cyfle hefyd i estyn gwahoddiad i gwmnïau o tu allan i'r ardal i berfformio. Mae perfformwyr eleni yn cynnwys Cwmnïau Drama Licris Olsorts, Doli Micstiyrs, Sarnau a Llanystumdwy. Eleni agorir yr ŵyl yn Neuadd Goffa, Tal-y-bont ar y 1 Mai cyn symud ymlaen i Neuadd Penrhynoch ar y 7 Mai gan gloi yn Neuadd Llanafan ar yr 16 Mai. Edrychir ymlaen yn frwd at weld gwledd o ddrama.

Dewch i fwynhau

DRAMA

yn eich cymuned leol!



Nos Fercher, 1 Mai 2019 am 7.30

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Cwmni Sarnau yn cyflwyno

Y Fainc

gan Emrys Edwards

Cwmni Licris Olsorts yn cyflwyno

Ni'n Dwy

gan Nan Lewis

Cwmni Doli Micstiyrs yn cyflwyno

Adolff

gan Emrys Edwards

Tocynnau wrth y drws. £5.00 i oedolion,
£2.50 i blant dan 16 a chonsesiynau

Am fwy o fanylion, ewch i
www.dramaceredigion.cymru
neu sganiwch y cod gyda'ch ffon symudol



C.F.F.I. Tal-y-bont yn cyflwyno tair sic o £566-00 yr un i elusennau MIND Aberystwyth, Ward Ystwyth ac Ambwlans Awyr Cymru. Cadeirydd Dewi Jenkins ar ran MIND Aberystwyth, Beca Williams Ysgrifennyddes, Sara Jenkins Trysorydd, Eleri Edwards o Ward Ystwyth Ysbyty Bronglais, Aneurin Roberts Ambwlans Awyr Cymru.

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Wedi bwrllwn y cystadlu yn Theatr Felinfach roedd hi'n braf cael y cyfle i berfformio'r hanner awr 'Y Moo-lan Rouge' o flaen Neuadd lawn o ffrindiau a chefnogwyr yn Nhal-y-bont ar y 12 Mawrth yng nghwmni clybiau Lledrod a Trisant. Cafwyd noson hwyliog dros ben a chyfle hefyd i ddatlu gwaith cymunedol pwysig a gyflawnir gan yr aelodau wrth gyflwyno'r arian a gasglwyd wrth ganu carolau o amgylch yr ardal cyn y Nadolig. Codwyd y swm anrhydeddus o £1,697.45 a rannwyd rhwng Mind Aberystwyth, Ward Ystwyth Bronglais ac Ambwlans Awyr Cymru. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu gwaith da.

Llongyfarchiadau mawr i ddau o'r aelodau a fu'n cystadlu yn Ngŵyl Siarad Cyhoeddus CFFI Cymru ar Faes y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd ar y 23 Mawrth. Bu Elain Tanat, Llandre ac Oisín Lludd, Bont-goch yn cystadlu fel aelodau o dîm Ceredigion gyda Sion Wyn, Felinfach yn y gystadleuaeth Ddarllen Iau Adran Gymraeg i aelodau dan 14 oed. Cipiwyd y 3ydd wobwr gan y criw a diolch yn fawr i Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont a fu'n hyfforddi.



Tîm Siarad Cyhoeddus Ceredigion, Elain, Sion ac Oisín

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Sesiwn Nos Wener

Cynulleidfa ddethol iawn a ddaeth ynghyd ar gyfer Sesiwn Nos Wener y tro yma ond ansawdd ac nid maint oedd yn bwysig.

Cafwyd noson gofiadwy yng nghwmni'r gitarydd medrus a chantor mwyn Owen Shiers wrth iddo berfformio ffrwyth ei ymchwil i draddodiad canu gwerin Ceredigion a gorllewin Cymru dan gochl prosiect o'r enw Cynefin. Gwych o beth yw bod y deunydd cyfoethog yma nid yn unig yn cael ei atgyfodi i'r oesoedd a ddêl ond hefyd ei ddehongli a'i gyflwyno mewn ffordd mor ffres a chreadigol gan Owen. Mae CD ar y gweill ganddo i'w gyhoeddi rywdro ym mis Mai a go brin y bydd ei gyfraniad i hanes ein canu gwerin yn gorffen yn y fan honno chwaith. Fe ddichon y byddwn yn clywed am ddoniau Owen Shiers am flynyddoedd maith i ddod. Diolch i Dan Griffiths am drefnu sesiwn arbennig iawn.



Owen Shiers wrthi'n cyflwyno.
Llun: Dan Griffiths

Trip Staff y Welsh Gazette, 1952




Treuliodd 17 o staff y Welsh Gazette benwythnos yn Llundain ym mis Tachwedd 1952. Ceir ei henwau ar y rhaglen a argraffwyd ar y pryd. Meddyliais y byddai o ddiddordeb i ddarllenwyr Papur Pawb gan ei fod yn cynnwys tri o fechgyn Tal-y-bont.

Diolch i Erwyd Howells am rannu'r llun gyda fi.

Efallai cawn drefnu trip tebyg i ohebwy'r Papur Pawb yn y dyfodol! Beth amdani Mr Golygydd?

REH



Y Gair Olaf



Ym mis Mawrth mae fy chwaer hynaf a fi yn dathlu ein pen-blwydd ar yr un diwrnod. Gan fod eleni yn un arbennig iddi hi, fe drefnodd barti i ffrindiau a theulu yn Maesmawr i ddathlu'r achlysur. Nid oedd am gael anrhegion ond fe fyddai'n falch o gyfraniad i Uned Ddamweiniau Ysbyty Bronglais gan fod eu merch yn gweithio yno.

Ffwrdd a ni am Maesmawr gan godi fy chwaer yn Llanfair. Dyma'r tro cyntaf i mi yrru ar ffordd osgoi y Drenewydd. Doedd dim ffwdan trafnidiaeth i fynd trwy'r dre.

Roedd fy mrawd am ddod o swydd Norfolk gyda'i deulu, felly roedd yn achlysur i weld tipyn ohonynt, yn enwedig yr ieuengaf sydd ddim ond dwy flwydd oed, a ninnau heb ei chwrrd o'r blaen. Gadawodd fy mrawd Gymru yn ddeunaw oed i fynd i'r awyrlu a chwrrd â'i wraig a phriodi yno. Yr unig amser mae'n siarad Cymraeg yw pan ddaw adref.

Diwrnod y pen-blwydd oedd y dathlu mwyaf. Mae'n anodd credu fod un mlynedd ar hugain wedi pasio ers i Catrin gael eu hail drawsblaniad aren. Anrheg enfawr. Mor gyflym mae'r amser wedi pasio. Ond yng nghanol ein dathlu ni, rhaid cofio am y teulu a gollodd un annwyl ac a fu mor garedig a dewr i adael i Catrin gael yr aren. Mae hwn wedi galluogi iddi briodi â Darren a mabwysiadu Mari a Cris yr efeilliaid, calon llygaid Taid a Nain. Fe fydd sawl dathliad yma dros y Pasg.

Aileen Williams

Gwaith achub arwrol

Fel y gŵyr darllenwyr Papur Pawb mae gogledd Ceredigion yn frith o hen weithfeydd a rheiny'n llawn hen lefelau a siafftau. Glanio yng nghanol un o'r rhain, ar gyrion pentref Tal-y-bont ddiwedd mis Mawrth, fu anlwc dau o gŵn lleol yn berchen i'r ffermwyr a'r brodyr Dafydd Jenkins, Tanrallt ac Enoc Jenkins, Tynygraig.

Fel y gwelir yn y llun mae'r mynediad i'r lefel yn edrych yn ddigon diniwed ar yr olwg gyntaf ond unwaith y tu fewn mae rhai o'r siafftau yn cwmpo ymhen dim i ddyfnderoedd o bron i 100 troedfedd. Cwmpo lawr un o'r rhain fu anffawd y cŵn, Cadi a Dion. Cadi wedi llwyddo i gwmpo ond ychydig o ddyfnder cyn glanio ar silff gul wrth ymyl y siafft a Dion wedyn yn disgyn i'r gwaelod un.

Wedi cwmpo o'r fath roedd Dafydd ac Enoc yn bryderus na fyddai unrhyw obaith bod y cŵn a Dion yn enwedig, wedi llwyddo i oresgyn. Serch hynny rhaid oedd meddwl am ddull o'u cyrraedd pe byddai modd. Roedd Dafydd fel mae'n digwydd yn gwybod bod Ioan Lord o Gwm Rheidol wedi bod yn ymweld â'r union siafftau ychydig wythnosau cyn hynny i gyflawni gwaith ymchwil. Penderfynwyd y byddai ganddo wybodaeth arbenigol a fyddai'n ddefnyddiol at y dasg.

Daeth Ioan i'r adwy ar unwaith ac nid tasg hawdd oedd cyrraedd Dion gan fod y siafft ei hun ond tua throedfedd a hanner o led a'r lleoliad yn dywyll a gwlyb. Gan ddefnyddio rhaffau ac Enoc yn tynnu yn yr awyr agored, llwyddodd Ioan i gyrraedd gwaelod y siafft a nôl y ci. Yr hyn sy'n wyrthiol ydy nad oedd unrhyw nam i Dion bach heblaw am un cwt bach ar ei wefus.

Nid oedd Ioan erioed wedi cyflawni gwaith achub fel hyn o'r blaen a dymuna Enoc a Dafydd ddiolch o galon iddo am ei gymorth parod ac arwrol. Mae'n syndod yn wir beth all ddigwydd yn ymyl adre!



Ioan Lord â'i gyfaill gyda'r cŵn Cadi a Dion

CHWARAEON



Ieuenctid Tal-y-bont

Roedd aelodau tîm dan 6 oed Tal-y-bont wrth eu boddau yn cystadlu am y tro cyntaf mewn gŵyl bêl-droed a gynhaliwyd ym Mhenrhyn-coch ar 6 Ebrill. Doedd dim ennill a cholli i'r plant, dim ond yr hwyl o chwarae ar eu gorau a chael eu gwobrwyo gyda medalau ar y diwedd.

Triawd y Triathlon



Llongyfarchiadau mawr i Elaine Rowlands, Maes y Felin, Tal-y-bont, Ceris Williams, Penrhos, Tal-y-bont a Mel Gaul, Aberystwyth a ddaeth yn ail fel tîm yn y *Dyfi Dash 2019* (*Sprint Tri*). Fel rhan o'r ras roedd rhaid nofio 400m, beicio 19k a rhedeg 6k.



Ruth Jên Evans: Y Grib Las (Blue Ridge)

Arddangos gwaith Ruth Jên yn yr Unol Daleithiau

Braf ydy deall y bydd gwaith gan yr artist Ruth Jên Evans o Dal-y-bont i'w weld yn fuan fel rhan o gasgliad o waith celf gan nifer o artistiaid eraill o orllewin Cymru yn yr Unol Daleithiau. Bydd yr arddangosfa 'Meddygon, Swynion a Melltithion' yn cael ei arddangos yng Nghanolfan Gelfyddydau Monongalia yn hen ddinas Morgantown yng Ngorllewin Virginia.

Mae'r arddangosfa sy'n agor ar y 3 Mai yn cynnwys celf werin, darluniau, crankies (dyfais o darddiad Appalachian lle mae cyfres o luniau'n cael eu creu ar sgrôl hir o bapur, gydag un llun yn symud at y nesaf wrth i'r stori gael ei hadrodd), cwiltiau, ffilm, ffotograffiaeth a llyfrau artistiaid. Ynghyd â gwaith gan artistiaid o Gymru bydd hefyd cyfle i weld gwaith grŵp o ddarlunwyr ac artistiaid gwerin o Appalachia. Mae'n rhan o brosiect ehangach sy'n archwilio'r mudo o Gymru i Fynyddoedd yr Appalachian a bydd cyfle yn ystod yr arddangosfa i brofi'r berthynas o ran traddodiadau gwerin a'r arferion o ran adrodd straeon. Bydd cyfle i ddeall mwy am y bobl frodorol a'r caethweision a oedd yn byw yno a dysgu am y merched mam-gu (granny women) a oedd yn byw ar yr ymylon gan adleisio profiadau nifer o ffoaduriaid heddiw.

argraffu da
am bris da



yLolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Gweithdy i gychwyn creu eich gwefan fro

Oes 'da chi stori? Beth am fideo neu luniau o weithgareddau eich clwb neu gymdeithas? Mae croeso i chi ddod i daflu syniadau i'r crochan, er mwyn creu gwefan newyddion lleol ar gyfer yr ardal hon.

Pryd a ble?

Nos Fawrth 30 Ebrill, 7.30pm – Arad Goch, Aberystwyth
I gael rhagor o wybodaeth, cynnig enwau neu ddweud eich bod am ddod, cysylltwch â Dan, Ysgogydd Bro360:
daniel@bro360.cymru neu 01570 423529.